



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

**Canllawiau ar gyfer comisiynu gwensanaethau trais yn erbyn
menwod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru**

Medi 2018

Canllawiau ar gyfer comisiynu gwensanaethau trais yn erbyn menwod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Y Broses Ymgynghori
3. Themâu sy'n Codi
4. Adborth o'r Cyfarfodydd Ymgynghori
5. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yn yr Ymgynghoriad
6. Camau Nesaf
7. Rhestr o'r Ymatebwyr

Crynodeb o'r ymatebion i'r 'Canllawiau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru'

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: 2016-2021* yn cynnwys chwe amcan. Un o'r amcanion hynny yw darparu i ddiodefwyr fynediad cyfartal i wasanaethau cyfannol, sydd â'r adnoddau priodol, sydd o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion, ar gryfderau, ac sy'n ymatebol i'r ddau ryw ar draws Cymru. I fodloni'r amcan hwn gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn y Strategaeth i gyhoeddi canllawiau strategol ar gyfer awdurdodau perthnasol ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Byddai hyn yn ychwanegiad at yr arweiniad arfer da *Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Pecyn Cymorth Cydweithredol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau yng Nghymru*.
- 1.2 Gwnaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid Cynaliadwy, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith darparwyr gwasanaethau, sefydliadau ar gyfer goroeswyr, a chyrrff statudol, helpu i lunio'r canllawiau. Wrth wneud y gwaith hwn, defnyddiodd y Grŵp y *Pecyn Cymorth Cydweithredol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau yng Nghymru* fel model, a ariannwyd gan Sefydliad Lloyds, gan fframio hwn o fewn y polisi o annog sefydliadau i weithio'n gydweithredol ar draws rhanbarthau.
- 1.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar y *Canllawiau Drafft ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin a Thrais Rhywiol yng Nghymru* rhwng 29 Mawrth 2018 a 22 Mehefin 2018. Mae'r canllawiau yn gefnogol i'r trefniant bod gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn comisiynu ymyriadau arbenigol ac anarbenigol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn bodloni diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf').
- 1.4 Nod y canllawiau hyn yw hybu trefniadau comisiynu cydweithredol o ansawdd da sy'n cyflenwi gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol er mwyn atal VAWDASV a diogelu a chefnogi diodefwyr VAWDASV ledled Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i drefniadau comisiynu gwasanaethau VAWDASV arbenigol ac anarbenigol, boed nhw'n cael eu comisiynu gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector neu'r sector preifat.
- 1.5 Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad ysgrifenedig, cyfarfu'r swyddogion â byrddau rhanbarthol ledled Cymru i glywed eu barn am y canllawiau ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru a chynnwys eu syniadau a'u hadborth yn y fersiwn derfynol.

2. Y Broses Ymgynghori

- 2.1. Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar-lein a'i hyrwyddo drwy gyfrwng gweithgareddau cyfathrebu cynrychiolwyr sectorau, cyrff ymbarél a Llywodraeth Cymru. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i ymateb i gwestiynau ar-lein gan ddefnyddio'r holiadur ar-lein, neu gyflwyno ymatebion ysgrifenedig drwy'r e-bost.
- 2.2. Cafwyd 11 ymateb i'r holiadur ar-lein a 18 o ymatebion drwy'r e-bost. Mae'r rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn adran 7.
- 2.3. Fe wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol hefyd gyfarfod â chynrychiolwyr y saith bwrdd rhanbarthol VAWDASV i gasglu adborth.

3. Themâu sy'n Codi

- 3.1. Cododd nifer o themâu allweddol o'r ymgynghoriad, yn y cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac yn yr ymatebion ar-lein.
- 3.2. Cyfarwyddyd ynteu Hyblygrwydd: Galwodd llawer o'r ymatebwyr am iaith a oedd yn fwy cyfarwyddol, gyda mwy o bwyslais ar ofynion gorfodol a mwy o gyfarwyddyd. Roedd rhai eisiau proses fonitro ranbarthol neu genedlaethol gydag eglurder ynglŷn â pha sancsiynau a fyddai'n cael eu gweithredu mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. I'r gwrthwyneb, ceid nifer lai o ymatebwyr a groesawai dull mwy hyblyg, a oedd eisiau mwy o gydnabyddiaeth i'r gwahaniaethau yn anghenion gwahanol ardaloedd a rhanbarthau, ac a oedd yn awyddus i beidio â cholli'r arferion da a oedd eisoes wedi'u sefydlu.
- 3.3. Canllawiau ymarferol ar weithredu a syniadau ar gyfer arloesi: Galwodd rhai ymatebion am fwy o arweiniad ynglŷn â sut i weithredu elfennau ymarferol y canllawiau, gydag esiamplau clir o arferion da. Gwelwyd bod trefniadau comisiynu rhanbarthol yn gyfle i fod yn arloesol ac roedd rhai ymatebwyr eisiau arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar sut i wneud hyn.
- 3.4. Strwythurau llywodraethu ac ariannu: Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion at ba mor gymhleth oedd y strwythurau llywodraethu ac ariannu ar draws rhanbarthau, ar draws cyfundrefnau grantiau ac ar draws gwahanol sefydliadau. Roedd hyn i'w weld yn amlwg yn y cyfarfodydd rhanbarthol ac mae'n rhywbeth sy'n cael ei gymhlethu oherwydd y cymysgedd o sefydliadau statudol ac anstatudol, a'r meysydd cyfrifoldeb datganoledig ac annatganoledig.
- 3.5. Gwahaniaethu rhwng defnyddwyr gwasanaethau (trais domestig / trais rhywiol / ddiodefwrwyr gwryw / defnyddwyr gwasanaethau duon a lleiafrifoedd ethnig / plant / LGBT+) Er y croesewid y dull gweithredu sy'n seiliedig ar anghenion, roedd nifer fechan o'r ymatebwyr yn sgeptig a fyddai'r rhain yn hysbysu'r broses gomisiynu'n ddigonol, gyda'r posibilrwydd o ragfarn comisiynwyr.
- 3.6. Cyllid: Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gostau gweithredu, er mai prin oedd y consensws ar y ffordd orau o dalu'r costau hyn. Cafwyd cwestiynau am rôl y

bancer rhanbarthol a sut gallai cronni cyllidebau weithio o bosibl, yn enwedig yng ngoleuni'r angen i sicrhau cyllid cynaliadwy.

3.7. Darparwyr Arbenigol Bach: Roedd pawb bron yn cytuno na ddylai trefniadau comisiynu rhanbarthol roi darparwyr arbenigol bach dan anfantais, ac na ddylid colli eu gwybodaeth na'u harbenigedd penodol.

3.8. Amser i gyflawni: Er bod nifer fechan o'r ymatebwyr yn credu bod yr amserlenni yn gyraeddadwy, a theimlai rhai eu bod wedi gwneud cynnydd da i wneud hynny, teimlai'r rhan fwyaf nad oedd yn bosibl gweithredu trefniadau comisiynu gwasanaethau rhanbarthol llawn erbyn Ebrill 2019. Galwasant am fwy o gydnabyddiaeth o'r cymhlethdodau a mwy o hyblygrwydd i symud ymlaen ar wahanol gyflymder. Roedd arnynt angen neges glir gan Lywodraeth Cymru na ddisgwyliai i'r trefniadau gweithredu rhanbarthol llawn fod ar waith erbyn mis Ebrill 2019.

4. Adborth o'r Cyfarfodydd Ymgynghori gyda'r Byrddau Rhanbarthol

4.1. Roedd llawer o'r byrddau yn croesawu'r Canllawiau Comisiynu, gan ddweud bod cydweithredu rhanbarthol yn gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd, ond fod comisiynu rhanbarthol yn dal yn y camau cynnar iawn. Mae rhai safbwyntiau i'w gweld isod:

4.2. Cafwyd cwestiynau ynglŷn â sut mae'r Canllawiau Comisiynu Rhanbarthol yn cyd-fynd â'r Canllawiau Cydweithredu Aml-asiantaeth a luniwyd yn 2016.

4.3. Nid yw'r strwythurau llywodraethu ar gyfer rhanbarthau VAWDASV ar hyn o bryd yn gweithio yng nghyd-destun cymhlethdodau strwythurau llywodraethu eraill, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), Byrddau Cynllunio Ardal, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, rhanbarthau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau).

4.4. Mae strategaethau comisiynu yn ofynnol ar gyfer ystod trawsbynciol a chymhleth iawn o wasanaethau sy'n effeithio ar VAWDASV; er enghraifft:

- gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd;
- VAWDASV;
- digartrefedd a thai;
- pobl anabl, gan gynnwys unigolion â chyflyrau iechyd meddwl, anawsterau dysgu a nam corfforol;
- pobl hŷn; a
- phartneriaethau diogelwch cymunedol

4.5. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan yn glir mai siwrnai yw hon ac y dylai'r rhanbarthau fod yn cymryd camau cynyddol i gyrraedd pen y daith, gan weithio gyda'r trydydd sector i ychwanegu gwerth.

4.6. Mae'r byrddau rhanbarthol yn gefnogol i drefniadau comisiynu rhanbarthol ond y bydd yn cymryd amser. Mae cylch comisiynu yn 2½ i 3 blynedd i wneud y gwaith dadansoddi, cynllunio a chyflenwi.

4.7. Byddai'r rhanbarthau yn gwerthfawrogi neges glir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'i disgwyliadau o ran y canlyniadau sy'n ofynnol a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r rhain.

4.8. Cafwyd ceisiadau am iaith gliriach, mwy cyfarwyddol.

5. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yn yr Ymgynghoriad

Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu cefnogaeth gan groesawu'r canllawiau.

5.1. Cwestiwn 1 - Ydy'r canllawiau drafft yn cynnig i gomisiynwyr y cyfle i wella'r trefniadau ar gyfer:

- i. atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;**
- ii. diogelu dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;**
- iii. cefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?**

5.1.1. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb amodol i'r cwestiwn hwn.

5.1.2. Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y canllawiau yn cynnig, neu'n cynnig yn rhannol gyfleoedd ar gyfer gwella. Teimlent eu bod yn annog model ariannu mwy cynaliadwy, gan ganfod bylchau yn y ddarpariaeth a chefnogi gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu i addasu i anghenion newidiol y boblogaeth. Mae'r canllawiau hefyd yn sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol yn cael blaenoriaeth.

5.1.3. Galwodd llawer am fwy o gyfarwyddyd, ffocws mwy cadarn ar gyfeiriad ac awgrymiadau clir am sut gellid sicrhau gwelliant, gan gynnwys datgan y canlyniadau disgwylidig.

5.1.4. Mynegodd rhai eu pryderon nad oedd gan grwpiau penodol gynrychiolaeth deg, megis dioddefwyr gwryw, plant a phobl ifanc. Tynnwyd sylw hefyd at rwystrau a oedd yn cynnwys anghysonderau ar draws rhanbarthau, yn enwedig o safbwynt y ffordd y caiff gwasanaethau eu hariannu a'u cyflenwi ar hyn o bryd, rhywbeth a fyddai'n ei gwneud yn anodd gweithredu trefniadau comisiynu yn ymarferol.

5.1.5. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod gofyn cael adnodd penodol er mwyn i'r canllawiau comisiynu fod yn rhan o ffordd effeithiol a thrawsnewidiol o weithio.

5.1.6. Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus y byddai gwasanaethau llai, arbenigol sydd wedi'u sefydlu i fodloni anghenion lleol ac sy'n meddu ar wybodaeth leol neu arbenigedd penodol ar eu colled o'u cymharu â sefydliadau mwy.

5.1.7. Roedd grwpiau buddiant penodol yn bryderus nad oedd y canllawiau yn tynnu sylw digonol at anghenion eu defnyddwyr gwasanaethau, megis plant, dynion, teuluoedd neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, tra bo un ymatebwr yn teimlo na ddylid gwahaniaethu rhwng grwpiau, ond y dylent oll yn hytrach gael eu trin fel unigolion bregus.

5.2. Cwestiwn 2 - Ydy'r canllawiau drafft yn ei gwneud hi'n glir beth fydd yn ddisgwyliadwy gan Lywodraeth Cymru ar bob cam o'r broses comisiynu?

5.2.1. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ydy i'r cwestiwn hwn.

5.2.2. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ganllawiau mwy eglur a theimlai un neu ddau fod y canllawiau yn rhy hir. Cytunai'r rhan fwyaf, o leiaf yn gyffredinol, fod y canllawiau yn ei gwneud hi'n glir yr hyn oedd yn ddisgwyliadwy ym mhob cam. Rhoddodd rai esiamplau o adrannau a oedd yn ddefnyddiol iawn yn eu barn nhw, tra bo eraill wedi darparu eu hesiamplau eu hunain o sut i wella'r strwythur a'r cynnwys.

5.2.3. Yn gyson â'r ymatebion i'r cwestiwn cyntaf yr oedd yr alwad gan nifer sylweddol o ymatebwyr am enghreifftiau mwy eglur o sut i weithredu'r darpariaethau yn y canllawiau, a mwy o gyfarwyddyd ac eglurder ynglŷn â disgwyliadau.

5.2.4. Roedd rhai ymatebwyr am i fwy o elfennau fod yn orfodol ac yn gyfreithiol rwymol, ac am fanylion unrhyw sancsiynau i sicrhau cydymffurfiaeth.

5.2.5. Croesawyd y pwyslais cynyddol ar ganlyniadau, ond teimlai rhai ymatebwyr y gellid tynnu sylw at hyn yn fwy effeithiol. Roeddent hefyd o blaid cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, goroeswyr a darparwyr gwasanaethau arbenigol, ond gwelwyd pryder y gallai darparwyr mwy fod yn drech na darparwyr arbenigol llai yn y dirwedd gomisiynu.

5.2.6. Roedd rhai yn teimlo bod cyfeiriadau at ddogfennau comisiynu eraill yn achosi dryswch gan eu bod weithiau'n hyrwyddo dulliau anghyson. Fodd bynnag, teimlai eraill ei bod yn ddefnyddiol iawn cyfeirio at ganllawiau eraill (gweler isod yn y crynodeb o atebion i gwestiwn 5).

5.3. Cwestiwn 3 - Ydy'r canllawiau drafft yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i wasanaethau a gomisiynir gael eu seilio ar anghenion rhanbarthol?

5.3.1. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ydy i'r cwestiwn hwn.

5.3.2. Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr ei bod hi'n glir, ar draws y canllawiau, fod yn rhaid i'r cynllun comisiynu adlewyrchu'r anghenion rhanbarthol a nodwyd, ond roedd llawer am gael cyfarwyddyd llawer mwy eglur ynglŷn â sut byddai hyn yn digwydd, yn enwedig mewn perthynas â:

- chynrychiolaeth o'r sectorau (BME, Trais Rhywiol, Trais yn y Cartref);
- trefniadau llywodraethu; a threfniadau ariannu.

5.3.3. Galwodd rhai ymatebwyr am gyllid i gyflawni'r agenda ranbarthol, gan fynegi pryderon hefyd y gallai cael un sefydliad bancwr greu dryswch ynglŷn â sut y caiff arian ei ddosbarthu, gan arwain o bosibl at ragfarn o ran yr hyn a ariennir.

5.3.4. Er eu bod yn cytuno bod trefniadau comisiynu rhanbarthol yn ddefnyddiol, amlygodd rhai ymatebwyr y ffaith y gellid bod hefyd gryn wahaniaethau'n lleol y mae'n rhaid eu hadlewyrchu mewn trefniadau o'r fath. Roedd enghreifftiau yn cynnwys ardaloedd trefol yn erbyn ardaloedd gwledig, gwasanaethau i ddynion, neu i ddefnyddwyr gwasanaethau BME.

5.3.5. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r trefniadau comisiynu fod yn seiliedig ar gymunedau o'r un angen, yn hytrach nag ar leoliadau. Roedd eraill yn pryderu y byddai dull rhanbarthol, yn hytrach na dull gweithredu Cymru gyfan yn arwain at anghysondeb ar draws y rhanbarthau ac yn gwaethygu'r 'loteri cod post'. Er bod un o'r rhanbarthau yn ymfalchïo yn ei broses dadansoddi anghenion gynhwysfawr, teimlai un ymatebydd fod rhai rhanbarthau'n anwybyddu canlyniadau'r dadansoddiad o anghenion wrth gomisiynu gwasanaethau.

5.3.6. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod dull comisiynu rhanbarthol yn peri risg i ddarparwyr arbenigol llai gan eu bod o dan anfantais sylweddol mewn proses dendro gystadleuol graddfa fawr.

5.4. Cwestiwn 4 - Ydy'r canllawiau drafft yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses o gynllunio a chomisiynu'r gwasanaethau, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, dioddefwyr, y trydydd sector a gwasanaethau arbenigol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

5.4.1. Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod hyn yn glir yn y ddogfen.

5.4.2. Codwyd yr angen i osgoi gweithredu mewn enw'n unig, a chafwyd galwad am gyfarwyddyd cliriach ynglŷn â lefel yr ymgysylltiad sy'n ofynnol a sut i gyflawni hyn. Tynnodd sawl ymatebydd sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod ystod gynrychioliadol o randdeiliaid yn cael eu cynnwys, a'r angen am wahanol fathau o offer ymgysylltu i gyflawni hyn.

5.4.3. Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen rhoi ystyriaeth i rôl Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn craffu ar y broses o ddylunio a chomisiynu gwasanaethau i sicrhau bod ymgysylltiad digonol wedi'i wneud.

5.4.4. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r ddogfen yn elwa o gynnwys enghreifftiau o arferion da sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar

draws ardaloedd gan gynnwys rhaglenni eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

5.5. Cwestiwn 5 - Dylai'r canllawiau drafft gael eu darllen ochr yn ochr â'r canlynol:

Ydy hi'n glir bod yn rhaid i'r dogfennau ychwanegol gael eu hystyried ac ydy hyn yn ddefnyddiol ac yn ymarferol?

- Dogfen Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod a Merched gan y Swyddfa Gartref – Cefnogi Comisiynu'n Lleol (i Loegr) a'r Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau i Gymru a Lloegr,
- Pecyn Cymorth Sefydliad Banc Lloyds, a
- Chanllawiau IPC arweiniol

5.5.1. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ydy i'r cwestiwn hwn.

5.5.2. Cymysg oedd y teimladau ynglŷn â pha mor ddefnyddiol oedd croesyfeirio at ddogfennau eraill. Cawsai rhai ymatebwyr y wybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol iawn, a'i chroesawu, tra bod eraill yn meddwl bod hyn yn anymarferol a dryslyd. Roedd rhai o'r farn y byddai cynnwys cyfeiriadau at ganllawiau eraill neu grynhoi cynnwys y dogfennau eraill yn y Canllawiau Comisiynu Rhanbarthol wedi bod o gymorth, ond byddai eraill wedi dewis gweld y rhain yn yr atodiadau.

5.5.3. Gofynnodd un neu ddau o ymatebwyr am ganllawiau pellach, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau iechyd. Teimlai un ymatebwr nad oedd y dogfennau ychwanegol y cyfeiriwyd atynt yn ddefnyddiol oherwydd nad oeddent yn rhoi sylw i anghenion un gymuned benodol o ddefnyddwyr gwasanaethau.

5.5.4. Teimlai llawer o ymatebwyr fod canllawiau Sefydliad Banc Lloyds yn drylwyr a defnyddiol iawn a bod y canllawiau hyn yn cyd-fynd yn dda â nhw.

5.6. Cwestiwn 6 - A oes unrhyw rwystrau eraill i gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) nad ydynt yn cael eu crybwyll yn y canllawiau drafft, a beth fyddai angen ei gynnwys i fynd i'r afael â nhw?

5.6.1. Rhestrwyd amrywiol rwystrau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

5.6.2. Mae angen i'r broses gomisiynu fwrw cyfrif o anghenion amrywiol ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys:

- plant;
- dynion;
- unigolion ag anawsterau dysgu;
- unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau; a
- dioddefwyr sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol.

- 5.6.3. Roedd ffrydiau ariannu a / neu hyfforddiant arbenigol yn angenrheidiol i roi sylw i'r gwahanol anghenion hyn. Ceid pryderon hefyd ynglŷn â rhagfarn comisiynwyr, gyda'r perygl y byddai rhai grwpiau o dan anfantaes oherwydd buddiannau a phrofiad penodol comisiynwyr.
- 5.6.4. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at anghysondeb yn y modd y caiff data ei gasglu; y data priodol sydd ar gael; dull gweithredu ar sail tystiolaeth a'r angen i fapio arferion da. Teimlai nifer fod yr oedi cyn darparu dangosyddion cenedlaethol yn rhwystr.
- 5.6.5. Cyfeiriwyd at anghysondeb yn y ddarpariaeth ar draws awdurdodau lleol ac ar draws rhanbarthau, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd y caiff gwasanaethau eu hariannu a'u darparu ar hyn o bryd. Roedd ymatebwyr o'r farn nad oedd digon o gydnabyddiaeth wedi'i rhoi i'r amserlenni sy'n ofynnol ar gyfer cylch comisiynu.
- 5.6.6. Roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai'r gofyn i sicrhau gwerth am arian arwain at fod comisiynwyr yn peidio â rhoi gwerth ar ddarparwyr gwasanaethau bach, arbenigol, gan arwain at golli 'gwerth cymdeithasol.' Roedd nifer yn gofyn am fwy o gyfarwyddyd ynghylch ymarferoldeb comisiynu.
- 5.6.7. Roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai'r bwriad i gyfuno cyllid grant VAWDASV mewn un ffrwd ariannu Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi (EIPS) fod yn rhwystr, yn enwedig os yw EIPS yn rhoi mwy o bwyslais ar flaenoriaethau lleol nag ar flaenoriaethau rhanbarthol a'r ddarpariaeth ddilynol.

5.7. Cwestiwn 7 - A yw'r amserlenni i gomisiynu gwasanaethau yn unol â'r canllawiau yn ymarferol (o fis Ebrill 2019 ymlaen)?

- 5.7.1. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr 'nac ydy' neu 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn.
- 5.7.2. O'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn siŵr a oedd yr amserlenni'n ymarferol ai peidio, roedd y rhan fwyaf wedi rhoi'r ateb hwn oherwydd y teimlent mai dim ond y byrddau comisiynu rhanbarthol a fyddai mewn sefyllfa i wybod.
- 5.7.3. Cyfeiriai'r ymatebwyr a oedd yn credu bod yr amserlenni yn uchelgeisiol neu'n anymarferol at brofiad. Yn benodol, cyfeiriwyd at hyd cylch comisiynu, yr angen i ddigomisiynu rhai gwasanaethau a chomisiynu gwasanaethau newydd, ac anawsterau cael cytundeb ar draws ystod o sefydliadau a fyddai'n ei gwneud yn anodd glynu wrth yr amserlenni hyn.
- 5.7.4. Un o'r rhesymau a roddwyd pam na ellid glynu wrth yr amserlenni oedd aeddfedrwydd cymharol y gwahanol ranbarthau. Er hynny, roedd hyd yn

oed y rhanbarth â'r mwyaf o brofiad, yn teimlo na allai lynu wrth yr amserlenni.

5.7.5. Codwyd yr angen i baratoi'n briodol at gomisiynu rhanbarthol, gan gynnwys casglu gwybodaeth am anghenion. Nid oedd ymatebwyr am i'r trefniadau gael eu rhuthro.

5.7.6. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gyllid, gyda'r angen i gysoni'r cyllid â'r comisiynu a sicrhau cyllid cynaliadwy.

5.8. Cwestiwn 8 - A oes unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg, cydraddoldeb neu hawliau plant mewn perthynas â'r canllawiau drafft hyn yr hoffech dynnu sylw atynt?

5.8.1. Teimlai nifer o ymatebwyr na cheid problemau, ond fe wnaeth y rhan fwyaf godi pryderon.

5.8.2. Cydnabuwyd y dylid rhoi sylw i anghenion siaradwyr Cymraeg, ond mae hyn yn cael ei arlliwio gan fynychder defnyddio'r Gymraeg a'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ar draws Cymru, yn ogystal â'r ffaith y gall cost cyflenwi roi darparwyr gwasanaethau llai dan anfantais. Mae gan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg wahanol ofynion ar gyfer gwahanol sectorau a dylid ystyried hyn. Dylid hefyd ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg wrth eu symud i ardaloedd eraill (er enghraifft, am resymau diogelwch) lle gall y ddarpariaeth Gymraeg fod yn gyfyngedig.

5.8.3. Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y categori 'rhyw' yn y nodweddion gwarchoddedig wedi cael sylw digonol. Dylid bod hefyd gydnabyddiaeth o'r angen i wasanaethau gael arweinyddiaeth sy'n gynrychioliadol o ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny. Cyfeiriodd un ymatebydd at anghenion unigolion ag anawsterau dysgu gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr camdriniaeth a thrais.

5.8.4. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r ymrwymiad i hawliau plant ond roeddent yn teimlo y dylid bod wedi rhoi ystyriaeth lawnach i ba rai o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y cyfeirir atynt yn y canllawiau. Roedd nifer eisiau gweld mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion plant, fel dioddefwyr a thystion camdriniaeth a thrais, a gweithredu ar sail y trawma a ddioddefwyd, ond roedd pryder nad yw ffrydiau ariannu yn cefnogi gwasanaethau i blant yn y sector hwn.

5.9. Cwestiwn 9 - Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw, gallwch eu nodi isod:

5.9.1. Cododd nifer o faterion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

- 5.9.2. Roedd nifer o ymatebwyr eisiau mwy o bwyslais ar weithio gyda throeddwyr ac edrychent ymlaen i'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y maes hwn esgor ar eglurder. Amlygodd eraill yr angen i fod yn gynhwysol a sicrhau bod pob grŵp yn cael sylw digonol. Canolbwyntiodd nifer yn benodol ar wasanaethau ar gyfer dioddefwyr gwryw. Roedd un ymatebydd eisiau cyfeiriadau at Lysoedd Teulu; tra nododd un arall na cheid unrhyw gyfeiriadau at brofiadau plentyndod niweidiol.
- 5.9.3. Roedd nifer o feysydd a groesawyd yn eang; roedd y rhain yn cynnwys y dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n seiliedig ar anghenion, y gofyn i roi sylw i anghenion unigolion â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau. Roedd un ymatebydd yn falch bod yr angen i sicrhau nad yw sefydliadau trydydd sector llai yn cael eu rhoi dan anfantais yn cael ei amlygu, ond roedd eraill yn pryderu y byddai'r sefydliadau llai hyn yn cael eu gwasgu allan o'r farchnad.
- 5.9.4. Roedd nifer o feysydd lle'r oedd gan ymatebwyr wahanol safbwyntiau. Roedd rhai eisiau mwy o gyfarwyddyd gyda mwy o bwyslais ar ofynion gorfodol a sancsiynau am beidio â chydymffurfio, tra bod eraill eisiau mwy o hyblygrwydd i roi sylw i wahaniaethau lleol a rhanbarthol. Roedd rhai yn gobeithio am ddiffiniadau clir ynglŷn â ffiniau rhanbarthol a theimlent y byddai symud oddi wrth hyn yn arwain at anghysondeb ledled Cymru neu'n gwaethygu'r gwahaniaethau presennol; roedd eraill yn teimlo y byddai cyfarwyddyd ar gyfer trefniadau rhanbarthol yn dadwneud y gwaith da a wnaed yn flaenorol, neu na fyddai'n rhoi dim ystyriaeth i gymhlethdod trefniadau rhanbarthol a'r strwythurau llywodraethu presennol.
- 5.9.5. Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith bod gweinyddu trefniadau rhanbarthol yn mynd i gostio, ond roedd ganddynt syniadau gwahanol am sut y dylid talu'r costau hyn. Galwodd rhai am gyllid gan Lywodraeth Cymru, galwodd eraill am ddefnyddio system frigdorri, tra bod un arall yn dadlau'n gryf yn erbyn brigdorri gan awgrymu y gallai'r bancwr ar gyfer y rhanbarth ddarparu'r gwasanaethau hyn yn rhad ac am ddim.
- 5.9.6. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at fframweithiau ansawdd, gan ofyn pa fframweithiau y dylid glynu wrthynt, gan roi sylw i rwystrau rhag cyrraedd safonau ansawdd penodol, er enghraifft oherwydd y gost neu'r gofyn i fod yn aelod o sefydliad penodol; roedd eraill yn eiriol dros set benodol o safonau.
- 5.9.7. Ymatebodd nifer ag ansicrwydd ynglŷn â'r grant Cefnogi Pobl a'r grant EIPS. Yn benodol, roeddent yn pryderu na ddylai'r gofynion ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrthdaro â'r gofynion ar gyfer comisiynu gwasanaethau a ariennir drwy grantiau eraill.

6. Camau Nesaf

6.1. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r ymatebwyr am roi o'u hamser i gyflwyno eu sylwadau a'u syniadau. Bydd yr ymatebion yn hysbysu statws y Canllawiau Comisiynu ac unrhyw ddiwygiadau a wneir cyn eu cyhoeddi'n derfynol.

7. Rhestr o'r ymatebwyr

Daeth ymatebion i law oddi wrth y sefydliadau a'r unigolion canlynol:

Sefydliadau :

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Barnardo's Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Sir Ddinbych
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
Families Need Fathers Both Parents Matter
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Bwrdd Partneriaeth VAWDASV Gwent
Hafan Cymru
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anabledd Dysgu Cymru
Llamau
GIG Cymru – Tîm Diogelu Cenedlaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru
NSPCC Cymru/ Wales
Ymateb Cymru gyfan – Swyddfeydd Heddlu a Throseddu ac
Arweinyddion Heddlu
Comisiynydd Heddlu a Throseddu – Heddlu De Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
SafeLives
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Survivors Empowered
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Cymorth i Fenywod Cymru

Unigolion:

Sophie Hansen, Survivors empowered
Raymond Greenwood,
Andrew Jones
Kara Newsome
Samantha Williams, Anabledd Dysgu Cymru
Rhiannon Edwards, Bwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru
Alison Kibblewhite. Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Tina Hitt, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Jenna Lewis, Llamau
Abbie Davies, Comisiynydd Heddlu a Throseddu – Heddlu De Cymru
Liana Duff, Cyngor Sir Ddinbych